YSGOL GYNRADD PENTREFOELAS

Oni heuir, ni fedir
Tyfu a ffynnu hefo'n gilydd

# Crynodeb a arfarniad Cynllun Datblygu Ysgol Pentrefoelas a blaenoriaethau

## HYDREF 2024

**Yn Ysgol Pentrefoelas rydym yn adolygu yn barhaus trwy systemau Hunan Arfarnu'r Ysgol. Mae arfarnu cyson yn ein galluogi i adnabod y blaenoriaethau allweddol y mae angen ini ymateb iddynt er mwyn gyrru gwelliant. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg gorau posib.**

### *Arweinyddiaeth*

- *Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'w selio ar farn ein holl ran-ddeiliad.*
- *Mae amserlen hunan arfarnu mewn lle sy'n cael ei fonitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau adolygu parhaus .*
- *Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol .*

### *Addysgu a dysgu*

- *Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.*
- *Mae'r disgyblion yn magu hyder ar draws y meysydd dysgu trwy gael cyfleoedd i fentro a dysgu o gamgymeriadau da. Mae'r gallu i wneud hyn mewn awyrgylch ysgogol a diogel yn hanfodol.*
- *Mae datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion yn cael sylw blaenllaw ar draws y cwricwlwm.*

### *Cwricwlwm - Y 4 Diben*

- *Bwriad ein cwricwlwm unigryw yw sicrhau bod ein dysgwyr yn Iach a Hyderus, Egwyddorol a Gwybodus, Creadigol a Mentrus a Galluog ac Uchelgeisiol.*
- *Rydan ni yn cynnig Cwricwlwm sy'n sicrhau bod POB disgybl yn gwneud cynnydd ac yn dysgu hyd gorau eu gallu.*
- *Rydym yn cynnig profiadau byw i'n dysgwyr mewn awyrgych naturiol gymreig ac yn ymfalchio yn ein diwylliant a'r cysylltiadau clos sydd rhwng yr Ysgol a'r Gymuned.*

### *Lles, Tegwch a Chynhwysiant*

- *Rydan ni'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau addysg awyr agored mewn amrywiaeth o osodiadau.*
- *Mae Iechyd a Lles Corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion yn cael ei fonitro yn rheolaidd o fewn systemau asesu yr Ysgol.*
- *Mae strwythurau a phrosesau cadarn iawn mewn lle ar gyfer targedu cefnogaeth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.*
- *Mae ethos o barch a gofal o fewn yr Ysgol yn hollbwysig a'n neges syml yw trin pobl fel yr hoffech chi gael eich trin.*

## *Llwyddiant Blaenorol*

### *Datblygu systemau olrhain cynnydd cadarn a diwygio prosesau Hunan Werthuso'r Ysgol*

Cydweithio clwstwr yn cael ei wreiddio a'i amserlennu
System tracio cynnydd disgyblion mewn lle ac yn monitro agweddau o Iechyd a lles yn ogystal a cynnydd academaidd.
Holl staff dysgu yn rhoi mewnbwn er mwyn sefydlu y camau nesaf yn natblygiad disgyblion a sicrhau cynnydd.

### *Gwella a datblygu addysgu a dysgu medrau digidol ar draws yr ysgol*

Pob disgybl wedi datblygu sgiliau animeiddio a creu fidio.
Hyfforddiant wedi ei dderbyn ar Codio yn y ddau Gyfnod Allweddol.
Buddsoddaiad mewn offer Codio er mwyn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr.
Clwb Codio CS a CA2 bob yn ail wythnos
Llwyddiant yng nghystadleuaeth Lego SpikeTechnocamps yng Nghanolfan Busnes Conwy.

### *Cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu*

Cyfarfodydd Tyfu a Ffynnu yn sicrhau bod y medrau yn cael eu datblygu.
Hyder y disgyblion yn cynyddu wrth iddynt ymgyfarwyddo a'r strategaethau cywiro ac adborth
Y disgyblion yn datblygu strategaethau i wirio gwaith eu hunain a trafod gyda'u cyfoedion.

# Blaenoriaethau Gwella

YSGOL GYNRADD PENTREFOELAS
Oni heuir, ni fedir
Tyfu a ffynnu hefo'n gilydd

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y gallwn i'n disgyblion.

***Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r addysg gorau y gallwn i'n disgyblion.***

## 1

***Darparu gweithgareddau sy'n herio pob disgybl i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar y lefel her briodol.***

*Byddwn yn mireinio ein cynlluniau gwaith hir-dymor a'n dulliau cynllunio byr-dymor ar gyfer Mathemateg a Rhifedd yn ystod y cyfarfodydd Tyfu a ffynnu.*

*Byddwn yn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm.*

*Byddwn yn darparu adnoddau pwrpasol ar y lefel gywir i ddatblygu sgiliau mathemateg a rhifedd.*

## 2

***Cynllunio cyfleoedd bwriadus i gymhwyso sgiliau ysgrifennu yn llawn ar draws y meysydd***

*Byddwn yn cyd gynllunio er mwyn sicrhau ystod o brofiadau ysgrifennu i'r disgyblion yn draws gwricwlaidd ar y lefel her briodol.*

*Byddwn yn cynnig cyfleoedd cyson dda i ddysgwyr gymhwyso a defnyddio eu medrau llythrennedd i bwrpas, ac ar y lefel her briodol, ar draws y meysydd dysgu*

*Byddwn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu medrau'n annibynnol ar draws y cwricwlwm.*

## 3

***Datblygu dulliau Asesu ar gyfer dysgu sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith er mwyn gwneud cynnydd.***

*Byddwn yn Mireinio a chryfhau'r defnydd o adborth ar waith trwy fodelu effeithiol, llunio targedau ar y cyd a thrwy hunan asesu ac asesu cyfoedion.*

*Byddwn yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd i bwrpas ac ar y lefel her briodol*

*Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar draws yr ysgol yn llwyddo i gymhwyso eu medrau'n annibynnol.*

## 4

***Codi safonnau sillafu a darllen Saesneg disgyblion CA2***

*Byddwn yn cynllunio cyfleoedd i sicrhau bod ystod o weithgareddau yn cael eu cyflwyno trwy'r Saesneg ar draws y meysydd dysgu.*

*Byddwn yn sicrhau bod sesiynnau rheolaidd wedi eu hamserlennu ar gyfer datblygu sgiliau'r dysgwyr ar y lefel her gywir.*